Credwn mewn byw cyn marw

© Cymorth Cristnogol 2008

Rhif elusen gofrestredig y DG 1105851
Rhif cwmni 5171525

Wythnos Cymorth Cristnogol
11-17 Mai 08

Mae'n bryd gweithredu ar newid hinsawdd

Cymorth Cristnogol/Mohammadur Rahman

Wrth i lefelau'r môr godi, yn ardaloedd arfordirol Bangladesh, mae dŵr y môr yn llygru cyflenwad dŵr cymunedau glannau'r afonydd a'r arfordir. Yn ogystal, mae'r cymunedau hyn yn wynebu colli eu cartrefi oherwydd cynnydd mawr mewn erydiad tir gan afonydd.

Mae'r newid yn yr hinsawdd yn bygwth dadwneud degawdau o waith datblygiad. Anghofiwch am roi terfyn ar dlodi; fe fydd tlodi'n beth parhaol oni bai ein bod yn delio ar fyrder â newid hinsawdd.

Gall eich rhoddion chi yn Wythnos Cymorth Cristnogol helpu cymunedau yn y byd sy'n datblygu i ddelio ag effeithiau newid hinsawdd. Ond dydi arian yn unig ddim yn ddigon. Rhaid gweithredu. Gall pob un ohonom geisio dylanwadu ar wleidyddion ac arweinwyr byd busnes yn y gwledydd cyfoethog - y rhai sy'n gwneud y penderfyniadau allweddol sy'n effeithio ar wledydd tlawd. Nid rhywbeth yn unig i'r dyfodol pell yw newid hinsawdd. Mae'n digwydd nawr, a'r tlodion yw'r rhai sy'n cael eu taro gwaethaf.

Mae newid hinsawdd yn eu gwneud hi'n anoddach i ragweld patrymau eithafol tywydd ac yn ychwanegu at lymdra stormydd. Yn ystod y 35 mlynedd diwethaf, mae stormydd o gryfder corwynt wedi bron â dybli yn eu nifer. Mae 11 miliwn o bobl Dwyrain Affrica yn wynebu newyn oherwydd blynyddoedd o sychder na welwyd mo'i tebyg. Yn ystod y 1990au roedd 90% o rai a effeithiwyd gan drychinebau cysylltol â'r tywydd yn dod o'r gwledydd tlawd. Ac fe amcangyfrifir fod 150,000 o bobl yn marw'n flynyddol oherwydd afiechydon a ddwysaodd o ganlyniad i newid hinsawdd. Er enghraifft, mae gwyddonwyr yn darogan fod mosgitos sy'n cario malaria, ac sy'n methu goroesi tymheredd isel, bellach yn lledu'r afiechyd ymhellach wrth i ardaloedd gynhesu, gan roi cannoedd o filoedd o bobl mewn perygl.

Mae'r rhagolygon yn dywyll. Hyd yn oed pe byddem yn llwyddo sefydlogi allyriadau CO_2, y mae'r tymheredd byd-eang yn debyg o godi 2˚ ar gyfartaledd erbyn 2050. Pe byddai hyn yn digwydd, bydd rhwng 1 a 3 biliwn o bobl yn wynebu prinder dŵr difrifol. Gallai 30 miliwn arall wynebu newyn wrth i gnydau fethu ar draws y byd. Wrth i gapanau rhew doddi a chynnydd yn nhymheredd y moroedd, byddai lefelau'r môr yn codi'n sylweddol. Byddai codiad o un metr yn gweld 10 miliwn o bobl Fietnam yn cael eu hadleoli a rhwng 8 a 10 miliwn arall yn yr Aifft, yn ogystal â hyd at 16% o dir Bangladesh, o dan ddŵr.

Mater o anghyfiawnder yw newid hinsawdd. Pobl dlotaf y byd sydd wedi cyfrannu lleiaf at y broblem, ac eto hwy sy'n dioddef y canlyniadau gwaethaf. Mae carbon wedi hybu cyfoeth a datblygiad y gwledydd cyfoethog. Ond mae effeithiau dinistriol ein hallyriadau CO_2 ar yr hinsawdd yn golygu na all gwledydd tlawd ddatblygu yn yr un modd.

Mae Cymorth Cristnogol yn pwyso am gytundeb rhyngwladol i sicrhau fod gwledydd cyfoethog yn torri'n sylweddol eu hallyriadau CO_2, er mwyn i'r gwledydd tlotaf ddatblygu mewn modd na fydd yn ychwanegu at newid hinsawdd nac yn eu condemnio i dlodi parhaol. Bydd y cytundeb yn galw ar y gwledydd cyfoethog: i dorri eu hallyriadau CO_2 o leiaf 80% erbyn 2050; digolledu'r gwledydd tlawd am y difrod a achoswyd yn barod gan newid hinsawdd fel bod ganddynt yr adnoddau i addasu; a chynorthwyo'r gwledydd tlawd i ddatblygu mewn ffyrdd a fydd yn cyfyngu allyriadau CO_2.

Mae toriadau o 80% erbyn 2050 yn golygu 5% o doriad yn flynyddol. Dyma'r gweithgarwch lleiaf posibl sydd ei angen er mwyn cadw cynhesu byd-eang o dan y ffigwr allweddol o 2˚C. Mae 5% yn flynyddol yn dipyn o her. Ond mae'n un sy'n rhaid ei gyrraedd. Mae miliynau o fywydau yn dibynnu arno.

Fel dinasyddion o wlad gyfoethog, yr ydym mewn safle pwerus i wneud gwahaniaeth. A dyna le'r rydym angen eich help. Arwyddwch gerdyn gweddi a gweithredu Wythnos Cymorth Cristnogol, os gwelwch yn dda, ac anfonwch neges at y llywodraeth fod yn rhaid gweithredu ar frys i ddelio â newid hinsawdd.

Mae ymgyrchu yn cael effaith. Mae ymgyrchoedd y gorffennol wedi bod yn gyfrifol am newid gwirioneddol mewn materion fel dyled a masnach deg. Rhaid gweithredu ar newid hinsawdd nawr, cyn ei bod yn rhy hwyr.

Gellir cael mwy o wybodaeth am ymgyrch Hinsawdd Newydd Cymorth Cristnogol, a chofrestri ar gyfer gweithredu pellach, ar www.christianaid.org.uk/climate

cymorth cristnogol

© Cymorth Cristnogol Rhagfyr 2007
Rhif elusen gofrestredig y DG 1105851 Rhif cwmni 5171525